# FFURFIAU BERFOL

## Holi partner

1. Dyma rai cwestiynau i`w gofyn:
(Llafar)

*Beth yw dy enw di?*

*Ble wyt ti`n byw?*

*Oes brodyr(brothers) neu chwiorydd(sisters) gyda ti?*

*Pa bynciau (pynciau – subjects) wyt ti`n`astudio yn y coleg?*

*Beth yw dy ddiddordebau?*

*Oes swydd ran amser gyda ti?*

## Geirfa

ble? – where?
brawd – brother
brodyr – brothers
chwaer – sister
chwiorydd - sisters
pwnc – subject
pynciau – subjects
astudio – to study
diddordeb – interest
swydd ran amser – part time job

Nawr gallwch wneud yr ymarfer canlynol gyda phartner:

Gofynnwch y cwestiwn canlynol i'ch partner:

*Beth yw dy hoff.....?*

Rhowch y geiriau canlynol ar ddiwedd y cwestiwn:

*person*
*lle*
*bwyd*
*diod*
*ffilm*
*actor*
*actores*

Dylai'r ateb ddechrau fel hyn:

*Fy hoff berson ydy.............*

Yna gwnewch yr un peth gyda:

*Beth yw dy gas fwyd?* *a.y.b*

Adrodd yn ôl i'r dosbarth gan roi rheswm.

2. Nawr paratowch(prepare) baragraff yn siarad am eich partner.

Dyma frawddegau (sentences) defnyddiol i chi:

Mae (Sian) yn byw yn................
Mae e`n /hi`n byw yn........

Mae (un) chwaer/brawd gyda fe/gyda hi

Yn y coleg, mae e`n/hi`n astudio............................

Diddordebau (Sian) yw..............................

Mae swydd ran amser gyda (Sian) yn ......................
Does dim swydd ran amser gyda (Sian)

3. Fel gwaith cartref ysgrifennwch baragraff yn siarad amdanoch chi (about you). Derchreuwch (start) fel hyn(like this):

*Rydw i`n byw yn Abertawe, Rydw i`n hoffi byw yn Abertawe`n fawr iawn achos... ... ... ... ....*

**Sôn am bethau yr ydych yn eu casau ac yn eu hoffi.**

Rydyn ni i gyd yn gwybod sut i ddweud pethau fel:

*Rydw i'n hoffi mynd i'r sinema.*
*Rydw i'n mwynhau darllen.*

Mae'r pethau yma'n gywir ac yn iawn i'w defnyddio, ond sut ydyn ni'n dweud yr un peth ond mewn geiriau eraill?

Beth am ddefnyddio:

*Rydw i'n dwlu ar sgio.*

*Rydw i wrth fy modd yn sgio.*

*Fy hoff ddiddordeb ydy sgio.*

*Rydw i'n hoff iawn o sgio.*

Yn yr un ffordd, beth am ddefnyddio'r canlynol yn lle *Dydw i ddim yn hoffi:*

*Mae'n gas gen i wneud fy ngwaith cartref.*

*Rydw i'n casau gwneud fy ngwaith cartref.*

*Fy nghas ffilm ydy Lethal Weapon.*

## Ansoddeiriau

Mae ansoddair yn air (word) sy`n disgrifio (describe).

Yn Saesneg, mae ansoddeiriau yn disgrifio hefyd.

*Tall big interesting blue sad*

Meddyliwch am 10 ansoddair yn Gymraeg a gwewch restr (list)

| | |
|---|---|
| 1. | 6. |
| 2. | 7. |
| 3. | 8. |
| 4. | 9. |
| 5. | 10. |

Pa ansoddeiriau sy`n eich disgrifio chi?

1.
2.
3.

Nawr edrychwch ar y geiriau(words) canlynol(following) a rhowch gylch (circle) o gwmpas(around) yr ansoddeiriau.

mawr

bachgen beic

rhedeg

diddorol

dawnsio tew

golygus

gwaith siaradus

astudio

Mae angen rhoi`r rhain mewn parau:

| | |
|---|---|
| diog | intelligent |
| cegog | generous |
| siaradus | mature |
| bywiog | lazy |
| amyneddgar | childish |
| hael | talkative |
| ymffrostgar | lively |
| deallus | unique |
| dawnus | boastful |
| unigryw | patient |
| plentynnaidd | talented |
| aeddfed | chopsy |

Nawr, ewch o gwmpas y dosbarth yn gofyn i`r aelodau eraill a ydyn nhw`n UN o`r ansoddeiriau uchod. Rhaid iddyn nhw roi rheswm.

**Geirfa**

Ansoddeiriau

Tal
Byr

Mawr
Bach

Tew
Tenau

Da
Drwg

Tawel
Swnllyd

Swil
Hyderus

Pert
Golygus
Hardd/prydferth
Hyll

Hapus
Trist

Diddorol
Diflas

Cyffrous
Diflas

Oer
Poeth

Golau
Tywyll

Gwyn
Du
Melyn
Glas
Coch
Oren
Gwyrdd
Brown

Piws/porffor
Pinc
Hufen
Aur
Arian

Amyneddgar
Diamynedd

Hael
Cybyddlyd

Caredig
Creulon
Cas

Siaradus
Cegog
Tawel

Oriog

Llym

Crac

Uchel
Isel

Cul
Llydan

Hawdd
Anodd

Meddal
Caled

Melys
Sur/chwerw

Esmwyth
Garw

Iach
Sâl

Deallus
Twp

**Llenwch y bylchau:**

1. i`n byw ar fferm yng nghanol y wlad.
2. e`n mwynhau gwylio fideo ar nos Wener.
3. nhw`n bobl siaradus iawn.
4. ti`n gwerthfawrogi bwyd a gwin da.
5. chi`n ddiog iawn yn y gwaith.
6. ni`n astudio yn y Brifysgol.
7. hi`n gwisgo colur bob dydd.

Rhaid i chi ddefnyddio un o`r canlynol:

rydw i
rwyt ti
mae e
mae hi
rydyn ni
rydych chi
maen nhw

Beth yw ystyr y geiriau canlynol?

gwerthfawrogi

y Brifysgol

colur

**Pwy ydw i?**

Ceisiwch ddyfalu (guess) pwy yw`r bobl enwog?

1. Rydw i`n Gymraes enwog
   Rydw i`n hoff iawn o ffilmiau James Bond
   Rydw i`n gantores sy`n gwario llawer o arian
   Rydw i`n ddu

   Ateb:

   Cymraes – Welsh woman
   cantores - female singer
   gwario arian – to spend money

2. Rydw i`n Sais cyfoethog iawn
   Mae clustiau mawr gyda fi
   Bydda i`n Frenin yn y dyfodol
   Mae dau fab gyda fi

   Ateb:

   cyfoethog – rich
   Brenin – king
   mab – son

3. Rydw i`n ddyn enwog iawn
   Rydw i`n mwynhau chwarae pêl droed
   Rydw i`n byw yn Sbaen gyda fy ngwraig a fy nau fab
   Mae fy ngwallt yn ffasiynol iawn

   Ateb:

   gwraig – wife

Cyfieithwch y brawddegau canlynol gan ddefnyddio amser presennol y ferf.

1. The sun is shining(gwenu).

2. The boy is playing.

3 . The children are learning.

4. We are laughing.

5. The old woman is suffering.

6. She believes the teacher.

7. They play in the garden.

8. I know the answer.

9. We sing in a choir.

10. He does his homework every night.

11. The wind is not blowing (chwythu).

12. We do not enjoy reading.

## Gofyn cwestiwn yn y presennol:

Ydw i`n?
Wyt ti`n?
Ydy e`n?
Ydy hi`n?
Ydy Marc yn?
Ydy`r llyfr yn?
Ydyn ni?
Ydych chi?
Ydyn nhw?

Oes?

*Cyfieithwch y canlynol:*

Are you happy?

Is the book good?

Does he smoke?

Do they enjoy singing?

Is Rhian ill?

Does your mother speak Welsh?

Am I talented?

Is there a red car in the car park?

**Y presennol yn y negyddol**

Dydw I ddim yn
Dwyt ti ddim yn
Dydy e ddim
Dydy hi ddim
Dydy Sian ddim yn
Dydy`r bachgen ddim yn
Dydyn ni ddim yn
Dydych chi ddim yn
Dydyn nhw ddim yn

Does dim

Cyfieithwch y canlynol:

I don`t eat

I am not pretty

We are not ready

She does not study

They do not sing

Sian is not tall

Rhys does not play cricket

The college is not good

There is not a problem

There are no books in the library

## Defnyddio *y* neu *yr*

Mae *y* ac *yr* yn cyfateb i `the` yn Saesneg. Ond pryd ydyn ni`n eu defnyddio nhw? I ddechrau rhaid i ni wybod beth yw`r gwahaniaeth rhwng llafariad a chytsain.

Y llafariaid yn Gymraeg yw:

*a e i o u w y (h)*

Y cytseiniaid yw pob llythyren arall, e.e.:

*b c ch d dd f ff* ..............

Felly, gyda llafariad rhaid defnyddio *yr,* e.e.

***yr afal, yr amser, yr oriau***

Gyda chytsain rhaid defnyddio *y*, e.e.

***y ci, y llyfr, y bachgen***

Nawr rhowch *y* neu *yr* o flaen y geiriau canlynol:

| | |
|---|---|
| oren | sedd |
| haf | plentyn |
| ateb | arholiadau |
| gwynt | ystafell |
| ficer | mochyn |

**Defnyddio *a* neu *ac***

Mae`r un rheol yn wir gyda *a* neu *ac*.
O flaen llafariad rhaid defnyddio *ac*, ac o flaen cytsain rhaid defnyddio *a*

| | |
|---|---|
| afal *ac* oren | dyn *a* menyw |
| munud *ac* awr | bachgen *a* merch |

**Ateb**

| *yes* | *no* |
|---|---|
| ydw *(I am)* | na/nac ydw |
| wyt *(you are)* | na/nac wyt |
| ydy *(he is)* | na/nac yw/nac ydy |
| ydy *(she is)* | na/nac yw/nac ydy |
| ydy *(he is)* | na/nac yw/nac ydy |
| ydyn *(we are)* | na/nac ydyn |
| ydych *(you are)* | na/nac ydych |
| ydyn *(they are)* | na/nac ydyn |
| ydyn *(they are)* | na/nac ydyn |

## ☺ Ymarferion

1) ______________________ i'n hoffi'r haf.
2) ______________________ i ddim yn hoffi codi'n gynnar.
3) ______________________ ti'n hoff o fwyd blasus?
4) ______________________ ti ddim yn mynd at ddeintydd da.
5) ______________________ e ddim yn gallu dod y deunawfed o Fedi.
6) ______________________ ni'n mynd yr ugeinfed o Ragfyr.
7) ______________________ hi'n hoffi'r dillad sydd gennyf i.
8) ______________________ chi ddim yn cael gwylio fy nheledu.
9) ______________________ nhw'n aros yng Nghaerdydd?
10) ______________________ ti'n un o Gaerffili?
11) ______________________ nhw ddim yn hoff o fy ngwaith.
12) ______________________ i'n mynd atoch chi heddiw?
13) ______________________ nhw'n siarad amdanon ni?
14) ______________________ e'n dweud bod y bai arnat ti?
15) ______________________ hi'n edrych arnaf i?
16) Weithiau ______________ chi'n siarad gormod.
17) ______________________ chi'n gallu gorffen y gwaith i gyd?
18) ______________________ ni ddim yn adnabod llawer o bobl.

## Y Perffaith

Mae`r perffaith yn y gorffennol. Mae`n cael ei ddefnyddio i ddynodi bod rhywbeth wedi digwydd yn y gorffennol a bod y weithred wedi gorffen.

Yn Saesneg dyma rai engreifftiau o`r perffaith:

I have washed this morning.

You have seen the film twice.

He has written to his mother.

She has been to University.

We have finished our food.

You have driven to work today.

They have had too much to drink.

Yn Gymraeg mae`n hawdd ffurfio`r perffaith. Dyma`r ffordd i wneud

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydw i<br>Rwyt ti<br>Mae e<br>Mae hi<br>Rydyn ni<br>Rydych chi<br>Maen nhw | + | wedi | + | berfenw |

Felly ceisiwch gyfieithu`r brawddegau uchod:

Rydw i wedi ymolchi y bore `ma.

Rwyt ti wedi gweld y ffilm ddwywaith…….

**Ymarfer y perffaith**

1. I have written a story.
2. You have started the book.
3. He has bitten (to bite – cnoi) his sister.
4. She has punished (to punish – cosbi) the child.
5. We have finished the work.
6. You have walked to school in the snow.
7. They have asked for more money.
8. Sion has left his family to go to Spain.
9. Rhian has joined ( to join – ymuno â) the local choir.
10. The teacher has been ill for a week.
11. The doctor has said that the flu is a problem.
12. The children have eaten their supper.
13. The pope(y pab) has visited Wales three times.
14. The rain has stopped.

**Y perffaith yn y negyddol**

I ffurfio`r perffaith yn y negyddol, mae`n rhaid mynd trwy`r un broses â`r cadarnhaol.

Yn Saesneg dyma`r perffaith yn y negyddol:

I haven`t seen my mother for a week.

You haven`t been to college today.

He hasn`t finished his work.

Yn Gymraeg dyma sut rydyn ni`n ffurfio`r perffaith yn y negyddol:

Dydw i ddim

Dwyt ti ddim

Dydy e ddim

Dydy hi ddim

Dydyn ni ddim + wedi + berfenw

Dydych chi ddim

Dydyn nhw ddim

Dydy Sian ddim

Dydy`r plentyn ddim

Er enghraifft

Dydw i ddim wedi gweld fy mam am wythnos.

Dwyt ti ddim wedi bod i`r coleg heddiw.

Dydy e ddim wedi gorffen ei waith.

Dydyn ni ddim wedi cerdded i`r ysgol am flynyddoedd.

Dydych chi ddim wedi ymweld â Rhufain.

Dydyn nhw ddim wedi brwsio eu dannedd y bore `ma.

**Ymarfer y Perffaith yn y negyddol**

1. I haven`t seen the new James Bond film.
2. You haven`t eaten your vegetables.
3. He hasn`t been to Germany.
4. She hasn`t spoken to (siarad â) Carys for a fortnight.
5. We haven`t finished the painting.
6. You haven`t built your own house.
7. They haven`t worked during the course.
8. Sion hasn`t slept for 24 hours.
9. Sara hasn`t drunk her milk this morning.
10. My father hasn`t been in an aeroplane.
11. The horse hasn`t run in a race yet.
12. The monster hasn`t appeared (to appear – ymddangos) in the film yet.
13. Once again, the children haven`t done their homework.
14. In my opinion, the council hasn`t answered the question very well.

## Gofyn cwestiwn yn y perffaith

Yn Saesneg dyma sut mae gofyn cwestiwn gan ddefnyddio`r perffaith:

Has the boy been to school today?
Have I thanked you for your work?
Have you seen my new coat?

Yn Gymraeg, rydyn ni`n ffurfio cwestiwn yn y perffaith fel hyn:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw i | | | | | | |
| Wyt ti | | | | | | |
| Ydy e | | | | | | |
| Ydy hi | + | wedi | + | berfenw | + | ? |
| Ydyn ni | | | | | | |
| Ydych chi | | | | | | |
| Ydyn nhw | | | | | | |
| Ydy Sian | | | | | | |
| Ydy`r plant | | | | | | |

Er enghraifft

Ydw i wedi gorffen y gwaith nawr?

Wyt ti wedi bod i America?

Ydy e wedi sefyll yr arholiad eto?

Ydyn ni wedi bod yn gas i`r bachgen newydd yn y dosbarth?

Ydych chi wedi prynu car newydd eto?

Ydyn nhw wedi gwylio Pobl y Cwm yn ddiweddar?

Ydy Sion wedi siarad â ti heddiw?

**Ymarfer cwestiynau yn y perffaith**

1. Have I passed the exam?
2. Have you painted your bedroom?
3. Has he stolen ( to steal – dwyn ) the money?
4. Has she written the letter yet?
5. Have we won the lottery ( y loteri ) this week?
6. Have you started your new job?
7. Have they been on television tonight?
8. Has Rhian seen the doctor since ( ers ) being ill?
9. Has Carwyn forgotten his bag again?
10. Has the dog died in the accident?
11. Has the child behaved ( To behave – ymddwyn ) today?
12. Have the people left the country?
13. Has the weather improved ( to improve – gwella) recently?

**NEWID BRAWDDEGAU**

Rhaid llenwi'r bylchau gwag yn y grid, drwy newid y frawddeg a roddir. Ymarfer da i adolygu rhai pwyntiau sylfaenol.

| Brawddeg | Negyddol | Cwestiwn |
|---|---|---|
| Mae car yma | | |
| | Dyw'r car ddim yma | |
| | | Ydy hi wedi meddwi? |
| Roedd hi'n wyntog ddoe | | |
| | Does dim rhaid i ti fynd | |
| | | Oes gwin ar y bwrdd? |
| Mae'r gwin ar y bwrdd | | |
| | Does dim problem 'da fe | |
| | | Gawson nhw ateb? |
| Maen nhw eisiau gadael | | |

Bydd rhaid i Ogleddwyr newid rhif 8. Gellir addasu'r ymarfer hwn yn ôl lefel y osbarth, a beth sydd angen ei adolygu. Mae modd chwarae gêm ddisiau ar yr un yniad: rhoi √ X ? ar ddis, paratoi set o gwestiynau ar gardiau, a newid brawddeg ar taflu'r dis.

Yr Amherffaith

Os ydych chi eisiau defnyddio *was* neu *were* yn Gymraeg mae`n rhaid ichi ddefnyddio`r patrwm hwn.

Roeddwn i`n
Roeddet ti`n
Roedd e`n
Roedd hi`n
Roedd Sian yn
Roedd y plant yn
Roedden ni`n
Roeddech chi`n
Roedden nhw`n

e.e.Roeddwn i yn y bath am 8 o`r gloch y bore`ma.
Roedd hi`n oer ddoe
Roedd y plant yn ddrwg yn y wers.

Cyfieithwch y brawddegau:

1. It was hot in Spain yesterday.

2. She was in school with me.

3. They were singing in the concert last night.

4. We were tired after the game.

5. The people were crying in the film.

6. Rhian was angry this morning.

7. You were ill on holiday.

**Yr Amherffaith yn y negyddol**

Doeddwn i ddim yn
Doeddet ti ddim yn
Doedd e ddim yn
Doedd hi ddim yn
Doedd Sian ddim yn
Doedd y plant ddim yn
Doedden ni ddim yn
Doeddech chi ddim yn
Doedden nhw ddim yn

Er enghraifft

Doeddwn i ddim yn hapus yn yr ysgol gyfun.
Doedd y tywydd ddim yn braf ddoe.
Doedden nhw ddim yn gwrando ar yr athrawes.

Cyfieithwch

She wasn`t happy in France

We weren`t shopping on Saturday.

Rhodri wasn`t in bed early last night.

I wasn`t crying when I saw the poverty (tlodi) on the news.

You weren`t fit last year.

The sun wasn`t shining during the game.

**Cwestiynau yn yr amherffaith**

Dyma sut i lunio cwestiwn yn yr amherffaith:

Oeddwn i`n?
Oeddet ti`n?
Oedd e`n
Oedd hi`n?
Oedd Sian yn?
Oedd y plant yn?
Oedden ni`n?
Oeddech chi`n?
Oedden nhw`n?

Er enghraifft:

Oedd y cyngerdd yn dda?
Oeddet ti`n gwylio Eastenders neithiwr am hanner awr wedi saith?
Oeddwn i`n blentyn cwrtais?

Nawr cyfieithwch y brawddegau

Was it fine in Italy?

Was John ready on time?

Were we in school with you?

Were they naughty on the trip?

Were you sad when the snow stopped?

Was I wearing my pink dress last night, I can`t remember?

Cyfieithwch y brawddegau canlynol gan ddefnyddio amser amherffaith y ferf.

1. I was watching television last night.

2. You (ti) were in pain.

3. He was asking the question.

4. We were sleeping by (erbyn)nine o`clock.

5. You (chi) were out late on Saturday.

6. They were lazy in school.

7. The sun was shining yedterday.

8. I wasn`t in the concert.

9. You (ti) weren`t trying.

10. She wasn`t listening.

11. We weren`t interested in Music.

12. You (chi) weren't in the church choir.

13. They weren't singing your praises. (canu dy glodydd)

14. Was I late this morning?

15. Was the wind blowing last week?

16. Were (ti) you in France in the summer?

17. Was he troublesome in nursery school, because he is now.

18. Were we on the same plane?

19. Were (chi) you in Cwm Tawe comprehensive school?

20. Were they ever happy?

13. Llenwch y bylchau:

## Neithiwr

Roedd dawns yn y dref neithiwr.

...................... John, Phil, Siân a fi'n sefyll wrth y llwyfan ac, felly, ...................... ni'n gallu gweld yn dda ac roedden ni'n gallu clywed yn dda!

...................... y goleuadau'n fflachio. ...................... pawb yn canu gyda'r grŵp ac ...................... nhw'n cael amser da iawn.

...................... y ddawns tu allan – yn y parc. ...................... hi ddim yn oer a ...................... hi ddim yn bwrw glaw. ...................... hi'n noson braf iawn.

...................... chi yno?

| | |
|---|---|
| amser da | *a good time* |
| goleuadau | *lights* |
| llwyfan,-nau (eg) | *stage,-s* |

14. Ysgrifennwch baragraff yn disgrifio 'Neithiwr', e.e.

*Neithiwr, roeddwn i'n ...*
*Am bump o'r gloch, roeddwn i'n ...*
*Wedyn, roeddwn i'n ...*

15. Rydych chi'n mynd i siarad â'ch partner chi am neithiwr.
Gwnewch holiadur.

- Ysgrifennwch gwestiynau i weld:
  - beth roedd e'n / hi'n wneud
  - ble
  - gyda phwy
  - oedd e'n / hi'n mwynhau
  - beth arall roedd e'n / hi'n wneud.
- Ysgrifennwch ddarn i ddisgrifio beth roedd eich partner chi'n wneud neithiwr.
- Dwedwch wrth y grŵp beth roedd eich partner chi'n wneud neithiwr.

## BOD: FFURFIAU'R AMHERFFAITH
(Roeddwn i; doeddet ti ddim; oeddet ti?)

1. ______________________ ti yn yr ysgol gyda fi.
2. ______________________ ni ddim yn dy gredu di.
3. ______________________ nhw yn yr ysgol ddoe?
4. ______________________ Dewi ddim yma neithiwr.
5. ______________________ chi'n chwarae ddoe.
6. ______________________ ni yma am saith o'r gloch?
7. ______________________ i'n arfer bod yn dew iawn.
8. ______________________ nhw ddim yn hapus yn yr ysgol.
9. ______________________ y plant yn tyfu'n gyflym.
10. ______________________ chi'n dost y llynedd?
11. ______________________ ti ddim yn edrych yn dda.
12. ______________________ e'n dweud ei fod e'n dod.
13. ______________________ i ddim yn gwisgo cot ar y pryd.
14. ______________________ i'n edrych yn lân?
15. ______________________ ni mewn cyngerdd neithiwr.
16. ______________________ ti ddim yn y tîm y pryd hynny.
17. ______________________ nhw'n gweithio mewn ffatri.
18. ______________________ Arthur yma neithiwr.
19. ______________________ chi ddim yn barod y bore 'ma.
20. ______________________ ti wedi blino ar ôl gweithio?
21. ______________________ hi'n eistedd ar y chwith.
22. ______________________ ni'n canu'n dda?
23. ______________________ nhw ddim yn briod.
24. ______________________ Siôn a Siân yn gweithio gyda'i gilydd?